CYNGOR CYMUNED PENMYNYDD A STAR

POLISI'R WASG A'R CYFRYNGAU

1.0 CYFLWYNIAD

1.1 Mae cyfathrebu cyson ac effeithiol ar ran Cyngor Cymuned Penmynydd a Star (o hyn ymlaen, "y Cyngor'') gyda'r gymuned leol yn hanfodol i sicrhau fod y Cyngor yn cael ei ddal i gyfrif am ei bolisïau a'i weithredoedd; ac am hyrwyddo ymwybyddiaeth y gymuned leol o swyddogaethau'r Cyngor a'r cyfleusterau a'r gwasanaethau mae'n eu darparu.

1.2 Mae'n rhaid i bob cyfathrebiad gan y Cyngor gael ei reoli'n ofalus i sicrhau ei fod yn gywir, effeithiol, cyson ac amserol. Mae methu â dilyn yr egwyddorion hyn yn creu risg o gyfathrebu anghywir â'r cyhoedd, gyda'r potensial i arwain at gyhoeddusrwydd anffafriol a niwed i enw da'r Cyngor.

1.3 Mae'r Wasg a'r Cyfryngau (h.y. teledu, radio, cyfryngau cymdeithasol a'r rhyngrwyd) yn sianeli cyfathrebu allweddol ac mae'n arbennig o bwysig fod y sianeli yma yn cael eu rheoli mewn modd gofalus a chadarnhaol. Mae'n rhaid i'r Cyngor gynnal deialog adeiladol a pharhaus gyda'r Wasg a'r Cyfryngau, yn annog cyswllt priodol a mynediad at Aelodau a Swyddogion, yn darparu gwybodaeth gefndir un ai yn rhagweithiol neu pan ofynnir amdano, ac yn hyrwyddo presenoldeb yn ei gyfarfodydd ac adrodd amdanynt. Ar yr un pryd, mae'n rhaid i'r Cyngor hefyd ymarfer llywodraethu effeithiol mewn cyswllt â'r Wasg a'r Cyfryngau. Pwrpas y polisi hwn yw gosod i lawr y llywodraethu hwnnw.

1.4 Mae'r llywodraethu yn cwmpasu sut mae cyfathrebu â'r Wasg a'r Cyfryngau yn cael ei reoleiddio a'i reoli gan y Cyngor. Mae'r polisi yn diffinio swyddogaethau, cyfrifoldebau ac awdurdod yr Aelodau a'r swyddogion a'r gweithdrefnau y mae'n rhaid iddynt eu dilyn. Nid yw'n ceisio darparu canllawiau ar sut a phryd mae'r Cyngor, neu Aelodau a Swyddogion unigol, yn ymgysylltu â'r Wasg a'r Cyfryngau nac yn ceisio darparu canllawiau ar arddull neu gynnwys unrhyw gyfathrebiad.

2.0 CEFNDIR CYFREITHIOL

2.1 Mae'r gyfraith sy'n llywodraethu cyfathrebu ac yn benodol cyhoeddusrwydd gan awdurdodau lleol, sy'n cynnwys Cynghorau Cymuned a Thref/Dinas, wedi'i gosod yn Neddfau Llywodraeth Leol 1986 ac 1988 fel ag y'u diwygiwyd gan ddeddfwriaeth ddilynol. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol hefyd dalu sylw i **God Ymarfer a Argymhellir ar Gyhoeddusrwydd Awdurdod Lleol** Llywodraeth Cymru. Yn gyffredinol, mae'n rhaid i bob cyfathrebiad gan Aelodau a Swyddogion gydymffurfio â'u cyfrifoldebau yn y Cod Ymddygiad i Aelodau, rheolau sefydlog y Cyngor a'r gwahanol ddeddfau, Rheoliadau a gorchmynion sy'n llywodraethu eu gweithredoedd mewn bywyd cyhoeddus.

3.0 RHEOLAU SYLFAENOL

3.1 Mae'r canlynol yn cynrychioli rheolau sylfaenol sydd yn rhaid i Aelodau a Swyddogion Cyngor Cymuned Penmynydd a Star eu dilyn o safbwynt cysylltu â'r Wasg a'r Cyfryngau:

3.2 Dylai pob datganiad, wedi'u hysgrifennu neu ar lafar, i'r Wasg neu'r Cyfryngau sy'n honni eu bod yn cynrychioli safbwyntiau'r cyngor gael eu cymeradwyo o flaen llaw gan Glerc y Cyngor, gyda Chlerc y Cyngor wedi ymgynghori â'r Cadeirydd yn flaenorol neu, yn ei absenoldeb ef/hi, yr Is-Gadeirydd. Mewn sefyllfaoedd brys, lle nad yw'r Clerc ar gael, gall y Cadeirydd neu, yn ei absenoldeb ef/hi, yr Is-Gadeirydd gymeradwyo'r fath ddatganiadau.

3.3 Ni ddylai Aelodau na Swyddogion y Cyngor wneud datganiadau, ysgrifenedig neu lafar, i'r Wasg neu'r Cyfryngau sy'n honni eu bod yn cynrychioli safbwyntiau'r Cyngor oni bai fod y safbwyntiau hynny wedi cael eu trafod a'u cytuno mewn cyfarfod o'r Cyngor neu mewn pwyllgor o'r Cyngor gydag awdurdod dirprwyedig i wneud penderfyniadau ar y materion o dan sylw.

3.4 Mae'n rhaid i unrhyw Aelod o'r Cyngor sy'n gwneud datganiad, ysgrifenedig neu lafar, i'r Wasg neu'r Cyfryngau sy'n cynrychioli safbwynt personol ac nad yw'n honni ei fod yn cynrychioli safbwynt y Cyngor gymryd camau rhesymol i sicrhau fod natur bersonol y datganiad yn glir ac na allai gael ei ddehongli fel datganiad sy'n cynrychioli safbwynt y Cyngor. Yn arbennig, ni all Aelod o'r Cyngor ddefnyddio'r teitl "Cynghorydd" wrth wneud datganiadau sy'n cynrychioli safbwynt personol.

3.5 Yn gyffredinol, mae gan bob Aelod a Swyddog o'r Cyngor gyfrifoldeb i roi sylw dyladwy i gynnwys ac i ddehongliad rhesymol unrhyw ddatganiad, personol neu fel arall, a wnaed i'r Wasg neu'r Cyfryngau; ac i sicrhau nad yw datganiadau o'r fath yn peryglu enw da'r cyngor nac yn dwyn anfri ar y cyngor.

3.6 Ni all unrhyw Aelod na Swyddog o'r Cyngor ddatgelu unrhyw ddogfen na mater i'r Wasg neu'r Cyfryngau a gyhoeddwyd yn gyfrinachol neu a drafodwyd yn gyfrinachol gan y Cyngor oni bai ei fod wedi cael awdurdod i wneud hynny drwy bleidlais y Cyngor a gan y Clerc.

PENMYNYDD AND STAR COMMUNITY COUNCIL

PRESS AND MEDIA POLICY

1.0 INTRODUCTION

1.1 *Regular and effective communication on the part of Penmynydd and Star Community Council (hereinafter "the Council") with the local community is essential in ensuring that the Council is held to account for its policies and actions; and for promoting the local community's awareness of the functions of the Council and the facilities and services that it provides.*

1.2 *This communication must therefore be accurate, effective, consistent and timely. Failure to observe these principles risks miscommunication and misinformation, which could lead to adverse publicity and damage to the Council's reputation.*

1.3 *The Press and Media (i.e. television, radio, social media and the internet) are key communication channels and it is particularly important that these channels are managed in a controlled and positive manner. The Council should maintain a constructive and continuing dialogue with the Press and Media, encouraging appropriate contact with and access to Members and Officers, providing background information either pro-actively or when sought, and promoting attendance at and reporting of its meetings. At the same time, the Council should also exercise effective governance in contact with the Press and Media. The purpose of this Policy is to set down that governance.*

1.4 *That governance covers how communication with the Press and Media is regulated and controlled by the Council. The Policy defines the roles, responsibilities and authority of Members and Officers and the processes that they must follow. It does not seek to provide guidelines on how and when the Council, or individual Members or Officers, engage with the Press and Media nor does it seek to provide guidance on the style or content of such communication.*

2.0 LEGAL BACKGROUND

2.1 *The law governing communication and specifically publicity by Local Authorities, which includes Community and Town/City Councils, is laid down in the Local Government Acts of 1986 and 1988 as amended by subsequent legislation. Local authorities must also have regard to the Welsh Government's* ***Code of Recommended Practice on Local Authority Publicity****. In general, all communication by Members and Officers must conform with their responsibilities under Code of Conduct for Members, the City Council's Standing Orders and the various Acts, Regulations and Orders governing their actions in public life.*

3.0 FUNDAMENTAL RULES

3.1 *The following represent fundamental rules that should be observed by Members and Officers of Penmynydd and Star Community Council with respect to contact with the Press and Media:*

3.2 *All statements, written or verbal, to the Press or Media which purport to represent the views of the council should be approved in advance by the Clerk, the Clerk having previously consulted the Chairperson or, in his/her absence, the Deputy Chairperson. In urgent situations, where the Clerk is unavailable, the Chairperson or, in his/her absence, the Deputy Chairperson may approve such statements.*

3.3 *No Member or Officer of the Council should make statements, written or verbal, to the Press or Media which purport to represent the views of the Council unless those views have been discussed and agreed in a meeting of the Council or in a committee of the Council with delegated authority to make decisions on the matters concerned.*

3.4 *Any Member of the Council making a statement, written or verbal, to the Press or Media which represents a personal view and which does not purport to represent the views of the Council must take reasonable steps to ensure that the personal nature of the statement is clear and that it could not be interpreted as a statement representing the views of the Council.*

3.5 *In general, all Members and Officers of the Council have a responsibility to have due regard to the content and to reasonable interpretations of any statements, personal or otherwise, made to the Press or Media; and to ensure that such statements do not risk the reputation of the Council nor bring the Council into disrepute. Any misconceptions created or misleading statements made on issues related to the Community Council by individual Members or Officers can be corrected and rectified by the Clerk.*

3.6 *No Member or Official of the Council may disclose to the Press or Media any documents or matters that have been issued in confidence to or discussed in confidence by the Council unless authorised to do so by a vote of the Council and by the Clerk.*